Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau Llywodraeth Leol (Swyddi dan Gyfyngiadau Gwleidyddol) (Cymru) 2008

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol ac fe'i cyflwynir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Disgrifiad

1. Mae Rhan I o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (Deddf 1989) yn cyfyngu ar weithgarwch gwleidyddol rhai cyflogeion awdurdodau lleol. Mae'n sicrhau na all cyflogeion awdurdodau lleol sy'n dal swyddi yn cynnwys dyletswyddau o natur wleidyddol sensitif hefyd ddod yn aelod o awdurdod lleol arall na pharhau i fod yn aelod o'r fath. Nid ydynt ychwaith yn gallu sefyll i gael eu hethol fel Aelod Seneddol, Aelod o Senedd Ewrop, Cynulliad Cenedlaethol Cymru na Senedd yr Alban.

2. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal rhestr o swyddi y mae cyfyngiadau gwleidyddol ynghlwm â hwy. Mae swyddi o'r fath yn cynnwys y rhai a bennir yn adran 2(1) o Ddeddf 1989. Yn y bôn, y rhain yw:

- Uwch swyddi penodol, lle nad oes gan eu deiliaid yr hawl i apelio i'r Dyfarnwr Annibynnol i gael eu heithrio.
- Swyddi lle telir cyflog uwchlaw lefel arbennig, lle y mae'r tâl yn £19,500 neu'n fwy neu swm uwch a bennir mewn rheoliadau (£34,986 ar 1 Ebrill 2006).
- swyddi y mae eu dyletswyddau yn cynnwys rhoi cyngor yn rheolaidd i'r awdurdod a/neu siarad â'r cyfryngau.

Gall cyflogeion a gynhwysir ar restr yr awdurdod o swyddi o dan gyfyngiadau gwleidyddol yn sgil lefel eu cyflog yn unig gyflwyno cais i'r Dyfarnwr Annibynnol i gael eu heithrio o'r rhestr.

Bwriad y rheoliadau arfaethedig hyn yw cynyddu'r trothwy tâl ac felly leihau nifer y swyddogion y cyfyngir ar eu gweithgarwch gwleidyddol.

Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Dim.

Y Cefndir Deddfwriaethol

3. Cyflwynodd Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai ("Deddf 1989") ddarpariaethau sy'n berthnasol i aelodau, swyddogion a phwyllgorau awdurdodau lleol. Yn benodol, mae adran 2 yn diffinio'r categorïau o staff y cyfyngir ar eu gweithgarwch gwleidyddol. Mae'r rhain yn cynnwys -
   (a) rhai swyddi statudol gan gynnwys, er enghraifft, pennaeth y gwasanaeth cyflogedig a phrif swyddogion;
   (b) staff sy'n ennill uwchlaw lefel arbennig o gyflog; a
   (c) staff sy'n rhoi cyngor rheolaidd i'r awdurdod neu i bwyllgorau yn rheolaidd, neu sy'n cynrychioli'r awdurdod i'r cyfryngau yn rheolaidd.

4. Caiff swyddogion o'r fath eu hatal rhag sefyll fel ymgeiswyr mewn etholiadau a rhag dal swyddi o fewn pleidiau gwleidyddol.

5. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnal rhestrau o'u staff y mae paragraffau (b) ac (c) uchod yn berthnasol iddynt. Mae gan y staff hynny hefyd yr hawl i gyflwyno cais i ddyfarnwr annibynnol (a benodir o dan adran 3) i gael eu heithrio rhag cyfyngiadau gwleidyddol.

6. Cafodd y lefel gyflog y cyfeirir ati yn (b) uchod ei phennu'n wreiddiol yn £19,500. Yn dilyn hynny cafodd y lefel ei phennu, gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Swyddi dan Gyfyngiadau Gwleidyddol) (Rhif 2) 1990, drwy gyfeirio at bwynt 44 ar golofn gyflogau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer swyddogion llywodraeth leol. Mae'r pwynt hwnnw yn gyfwerth â £35,852 ar hyn o bryd (ar 1 Ebrill 2007).

7. Cafodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i newid y lefel gyflog o dan adran 2, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol o safbwynt Cymru, eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Mae'r swyddogaethau hyn bellach wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Caiff Rheoliadau eu harfer gan Offeryn Statudol a'u gwneud gan y weithdrefn penderfyniad negyddol

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

8. Mae Llywodraeth y Cynulliad, ar y cyd â rhanddeiliaid eraill, wedi bod yn gweithio i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o lywodraeth leol a cheisio ffyrdd o annog rhagor o ymgeiswyr i ystyried sefyll yn yr etholiadau lleol yn 2008.

9. Bwriad y rheoliadau drafft hyn yw cynyddu'r lefel dâl sy'n golygu bod rhai swyddogion llywodraeth leol yn amodol ar gyfyngiadau gwleidyddol. Ni fyddai gan y rheoliadau unrhyw effaith ar y swyddogion a ddisgrifir yn (a) ac (c) uchod.

10. Mae'r rheoliadau drafft yn cynnig y byddai'r lefel gyflog yn (b) yn seiliedig ar bwynt 49 ar y raddfa a grybwyllir - £40,101 sy'n cynnwys y codiad cyflog diweddar a gyflwynwyd yn 2007.

11. Bydd y rheoliadau drafft hyn yn galluogi rhagor o staff llywodraeth leol i ystyried sefyll am swyddi heb orfod cyflwyno cais i gael eu heithrio rhag cyfyngiadau gwleidyddol yn gyntaf. Ni chedwir unrhyw ddata yn ganolog ynghylch nifer y cyflogeion a gynhwysir ar restr awdurdod o swyddi dan gyfyngiadau gwleidyddol. Bernir y bydd oddeutu 1000 o gyflogeion, ar gyfartaledd, yn rhydd o gyfyngiadau gwleidyddol o dan y rheoliadau hyn.

Gweithredu

12. Bydd y rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Llywodraeth Leol (Swyddi dan Gyfyngiadau Gwleidyddol) (Rhif 2) 1990 mewn perthynas â Chymru.

13. Bwriedir i'r rheoliadau drafft ddod i rym ar 29 Chwefror 2008.

14. Mae datganiad i'r wasg wedi'i gyhoeddi er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r bwriad i lunio'r rheoliadau cyn etholiadau lleol 2008. Cyhoeddwyd y datganiad i'r wasg ym mis Awst 2007 ar ôl i'r Gweinidog gymeradwyo'r bwriad i ddrafftio'r rheoliadau.

15. Roedd cyhoeddi'r bwriad i lunio'r rheoliadau bryd hynny yn creu cyfle i unigolion ystyried posibilrwydd sefyll am swyddi yn etholiadau lleol 2008.

16. Gwyddys bod pleidiau gwleidyddol yn dewis ymgeiswyr gryn dipyn o amser cyn etholiad. Byddai cyhoeddi'n gynnar y bwriad i gyflwyno'r rheoliadau drafft hyn wedi galluogi unigolion, a rwystrwyd ynghynt rhag sefyll am swyddi, i gael eu hystyried fel ymgeiswyr.

17. Cynhelir yr etholiadau nesaf i brif gynghorau a chynghorau cymuned yng Nghymru ar 1 Mai 2008. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn enwebiadau fydd 19 diwrnod cyn dyddiad yr etholiad h.y. 4 Ebrill 2008.

18. Os na chaiff y dyddiad targed ar gyfer llunio'r rheoliadau ei gyflawni gallai hyn atal rhai darpar ymgeiswyr rhag sefyll mewn etholiad.

19. Cynhaliwyd ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y drefn ynghylch cyfyngiadau gwleidyddol ar yr un pryd ag ymgynghoriad Llywodraeth y DU.

20. Mae Llywodraeth y DU yn cynnig, mewn ymateb i'w hymgynghoriad, y dylid cynnal y fframwaith presennol sy'n cyfyngu ar weithgarwch gwleidyddol uwch staff ac y dylid ystyried diwygio'r rheolau presennol er mwyn sicrhau nad yw'r cyfyngiadau gwleidyddol ond yn berthnasol i'r swyddi ar y lefel uchaf.

21. Yn achos Lloegr, ceir darpariaeth yn Neddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 sy'n golygu y gellir trosglwyddo'r cyfrifoldeb am eithrio pobl rhag cyfyngiadau gwleidyddol i bwyllgor safonau awdurdod ac y bydd swydd y Dyfarnydd Annibynnol yn cael ei gwaredu. Nid oedd rhanddeiliaid yng Nghymru o blaid yr opsiwn hwn.

Ymgynghori ar bolisi

22. Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori dros 12 wythnos ar bolisi ynghylch y drefn o ran cyfyngiadau gwleidyddol yng Nghymru ym mis Tachwedd 2004. Ymgynghorwyd â Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol, Comisiwn Archwilio Cymru ar y pryd, Uned Wybodaeth Llywodraeth Leol, SOLACE, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac UNSAIN.

23. Roedd yr ymarfer ymgynghori yn seiliedig ar y ddogfen a baratowyd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog ar y pryd "Review of the Regulatory Framework Governing the Political Activities of Local Government Employees."

24. Gwahoddodd y ddogfen sylwadau ar y drefn sy'n rheoli gweithgarwch gwleidyddol cyflogeion llywodraeth leol fel yr amlinella Rhan 1 o Ddeddf 1989. Gwahoddodd rhan o'r ymarfer ymgynghori sylwadau ar:
    - Yr awydd i leihau nifer y swyddogion y mae'r cyfyngiadau yn berthnasol iddynt,
    - Lefel y tâl y dylai'r cyfyngiad fod yn berthnasol iddi,
    - Categorïau'r swyddi y dylai'r cyfyngiadau fod yn berthnasol iddynt.

25. Derbyniwyd cyfanswm o 33 o ymatebion: wyth gan awdurdodau lleol ac eraill gan CLlLC, SOLACE, UNSAIN a'r Comisiwn Archwilio. Teimlai'r rhai a gyflwynodd sylwadau ar yr agwedd hon ar yr ymarfer ymgynghori fod y rheolau presennol ynghylch cyfyngiadau gwleidyddol yn gweithio'n dda a bod pawb yn eu deall. Serch hynny, roedd cwmpas ar gyfer adolygu'r rheolau er mwyn lleihau nifer y staff yr oedd y cyfyngiadau yn berthnasol iddynt.

26. Y farn gyffredin oedd y dylid lleihau nifer y swyddogion yr oedd y rheoliadau ynghylch cyfyngiadau gwleidyddol yn berthnasol iddynt. Dylai'r drefn o gyfyngiadau gwleidyddol barhau'n berthnasol i Brif Weithredwyr, Prif Swyddogion Statudol ac uwch gyflogeion. Dyletswyddau yn hytrach na chyflog ddylai ddylanwadu ar y penderfyniad i bennu bod rhai swyddi dan gyfyngiadau gwleidyddol.

Ymgynghori ar reoliadau drafft

27. Cynhaliwyd ymgynghoriad chwe wythnos ar y rheoliadau drafft o 19 Hydref 2007 hyd 23 Tachwedd 2007. Ymgynghorwyd â Phrif Weithredwyr a Swyddogion Monitro Cynghorau Bwrdeistref Sirol a Chynghorau Sir ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE), Clercod Awdurdodau'r Heddlu, Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau, Cymdeithas Ysgrifenyddion a Chyfreithwyr Cynghorau Cymru, Cymdeithas Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru, y Swyddfa Archwilio, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, UNSAIN a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yng Nghymru, ymhlith eraill.

28. Derbyniwyd ymatebion oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir Ddinbych a SOLACE Cymru.

29. Roedd agwedd pawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft yn gadarnhaol. Ni chafwyd unrhyw awgrymiadau ynghylch diwygiadau nac addasiadau i'r rheoliadau. Bu i rai awgrymu y dylai'r fframwaith rheoleiddio

cyffredinol gael ei adolygu, ond roedd y mater hwn y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

30. Nid yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol ond yn rhoi pŵer i'r Gweinidog ddiwygio cyfradd dâl swyddogion. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn rhoi'r opsiwn i Weinidogion Cymru o ran gwaredu'r cyfyngiad yn seiliedig ar lefel y tâl.

31. Mae Cod y Gwasanaeth Sifil yn atal aelodau o'r Uwch Wasanaeth Sifil a Gweithwyr Llwybr Carlam rhag ymgymryd â gweithgarwch gwleidyddol ar lefel genedlaethol. Serch hynny, gallant, â chaniatâd, ymgymryd â gweithgarwch o'r fath yn lleol. Mae pennu lefel y tâl ar gyfer cyflogeion llywodraeth leol, ar neu uwchlaw y lefel lle mae swyddi o dan gyfyngiadau gwleidyddol, ar lefel 49 o raddfa y Cyd-gyngor Cenedlaethol yn cyfateb i bwynt tâl 1 o swydd Gradd 7 y Gwasanaeth Sifil.

32. O dan amgylchiadau o'r fath, ni chredir bod angen paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol.